Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Cwmbrân
# Henllys Way
# St Dials
# Cwmbrân
# Torfaen
# NP44 4HB

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Lleolir Ysgol Gynradd Cwmbrân ar gyrion tref Cwmbrân yn awdurdod lleol Torfaen. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 386 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 56 oed meithrin amser llawn. Trefnir y disgyblion mewn naw dosbarth oed sengl a phedwar oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, tua 20% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref neu o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 21.9% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn debyg i'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011 a phenodwyd y pennaeth presennol ym mis Ionawr 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hapus lle mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn.  Mae'n cynnig profiadau niferus i'r disgyblion i ehangu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol.  Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau hir.  Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda, y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol.  Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr yn aeddfed a chyda pharch a chwrteisi.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i'r staff a'r disgyblion, sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol, a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus.  Mae'r staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n dda iawn i sicrhau bod ethos yr ysgol yn un gofalgar iawn.  Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu lles emosiynol y disgyblion trwy addasu'r ddarpariaeth yn greadigol.  Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella rhuglder iaith lafar Cymraeg disgyblion

A2 Cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen wneud dewisadau mewn perthynas â'u dysgu fel eu bod yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

A3 Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag effaith ei darpariaeth ar les disgyblion drwy wella eu lles emosiynol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r disgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau llythrennedd sy'n is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Er bod y Gymraeg yn iaith newydd i ran fwyaf y disgyblion ar fynediad i'r ysgol, mae medrau llafar llawer ohonynt yn datblygu'n effeithiol yn y dosbarth meithrin. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddyd gan oedolion ac yn dangos parch at farn y disgyblion eraill. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon ac yn siarad yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Ar frig cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n rhugl yn Saesneg. Maent yn defnyddio geirfa gyfoethog ac ymestynnol i greu effaith, er enghraifft wrth drafod taith Shackleton. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio iaith lafar Gymraeg gyda digon o ruglder. Mae rhan fwyaf y disgyblion wedi datblygu medrau gwrando da ac yn parchu safbwyntiau eraill wrth drafod testunau amrywiol, er enghraifft effaith melinau gwynt ar yr amgylchfyd.

Mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau'n gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn ystyrlon gyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen ystod o destunau yn y Gymraeg a Saesneg gyda dealltwriaeth dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn am lyfrau ac awduron yn hyderus ac yn ymateb i gynnwys ac arddull cerddi yn fedrus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol, er enghraifft wrth gyflwyno araith ar ddyfodol yr orang-utan.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn y dosbarthiadau cyntaf yn datblygu'n gadarnhaol. Maent yn defnyddio geirfa ac iaith amrywiol yn gynyddol ym Mlwyddyn 1 a 2. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer adeiladu tŷ. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn creu darnau dychmygus yn gyson wrth ysgrifennu ymson llawn tosturi gan un o drigolion Tryweryn, er enghraifft. Fodd bynnag, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn anniben.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, siâp, amser a data, er enghraifft wrth greu graff bar i gofnodi gwybodaeth am hoff anifeiliaid. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau'n bwrpasol ar draws y cwricwlwm ac yn datblygu strategaethau cadarn, er enghraifft wrth ddatrys problemau am gost mordaith o Lerpwl i Batagonia. Erbyn

Blwyddyn 6, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, gyda'r disgyblion sy'n fwy abl yn gwneud cynnydd da. Maent yn cymhwyso eu strategaethau cyfrif yn y pen yn effeithiol gan ddefnyddio'r pedair rheol wrth gyfrifo costau mynediad i gastell. Maent yn defnyddio a dehongli data yn hynod ddeallus, er enghraifft wrth werthuso medrau gwahanol bêl-droedwyr enwog.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos hyder wrth drafod gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y cyfnod sylfaen, maent yn rheoli tegan symudol yn effeithiol ac yn defnyddio rhaglenni data yn hyderus i greu graffiau am greaduriaid y môr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus i gyflwyno'u gwaith, er enghraifft wrth drafod effaith datblygu'r draffordd M4 drwy warchodfa natur. Maent hefyd yn defnyddio taenlenni'n llwyddiannus i greu graffiau amrywiol i grynhoi gwybodaeth.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Maent yn teimlo'n hapus a diogel yno, ac yn gwerthfawrogi bod yr amgylchedd yn un gofalgar a chyfeillgar. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn hapus bod staff yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon sydd ganddynt a bod y 'bocs poeni' a sesiwn 'galw heibio'r' ysgol yn gyfryngau defnyddiol i'w cynorthwyo gyda hyn. Mae'r disgyblion hŷn yn ofalgar tuag at ddisgyblion y cyfnod sylfaen wrth iddynt eu cynorthwyo ar y buarth yn ystod amser chwarae.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrtais tuag at y staff a thuag at ei gilydd ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau â'u tasgau yn ddiwyd. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cryfhau eu dealltwriaeth o effeithiolrwydd diodydd egni ar y corff mewn sesiwn wyddoniaeth. Mae llawer yn datblygu dyfalbarhad a gwydnwch yn bwrpasol a defnyddiant y strategaeth 'gofyn i ffrind a phartner cyn yr athrawes' i'w cynorthwyo pan fo angen cymorth arnynt. Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn cadw ar dasg am gyfnodau addas ac, ar y cyfan, yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gweithio'n synhwyrol gyda phartner ac mewn grwpiau bychain wrth gynllunio llwybrau beicio newydd i Geraint Thomas, er enghraifft.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wedi dechrau cynnig syniadau diddorol am beth yr hoffent ei ddysgu yn ystod diwrnodau sbardun. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn astudio nodweddion Yr Wyddfa fel rhan o'u thema 'Cawsom Wlad i'w chadw'. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu strategaethau cadarn i wella eu gwaith eu hunain. Er mai ychydig o ddisgyblion y cyfnod sylfaen sy'n ymateb i sylwadau'r athrawon, maent wedi dechrau cyfrannu at heriau'r prynhawn, ac mae eu medrau i weithio'n annibynnol yn datblygu'n briodol.

Mae llawer o ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae'r rheini sydd ar y pwyllgorau niferus yn ymgymryd â'u gwaith yn gydwybodol. Er enghraifft, trwy waith yr arweinwyr digidol, mae llawer o ddisgyblion yn deall yn glir sut i gadw'n ddiogel ar y we ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymestyn eu medrau TGCh yn dda yn ystod eu clwb wythnosol. Trwy fod yn weithredol yn yr ysgol ac yn y gymuned leol, mae'r cyngor eco yn hyrwyddo

cynaliadwyedd yn effeithiol. Mae gan lawer o ddisgyblion wybodaeth gadarn am y byd ehangach; er enghraifft, maent yn trafod cyfleusterau ffermwyr sy'n tyfu ffrwythau a llysiau masnach deg yn ddeallus iawn. Trwy gefnogi gweithgareddau'r cyngor ysgol i godi arian at elusennau amrywiol fel clefyd y siwgr, a thrwy gyfrannu at fanc bwyd lleol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a chydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o faterion cymdeithasol ac ymwybyddiaeth eang o anghenion eraill o fewn cymuned yr ysgol a thu hwnt.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac mae disgyblion o bob oed yn deall sut i wneud dewisiadau synhwyrol mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio'n gyson ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol cyfoethog, a chlybiau niferus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â datblygu eu hunanhyder a'u ffitrwydd yn llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan holl staff yr ysgol berthynas waith dda gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch gadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd gwerthfawr o staff cymorth ac ar y cyd, maent yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Mae'r staff yn sensitif i anghenion disgyblion ac mae eu hanogaeth i les y dysgwyr yn datblygu eu hyder yn llwyddiannus. Mae bob aelod o staff yn defnyddio strategaethau hybu ymddygiad da yn gyson ar draws yr ysgol ac, o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus yn y ddau gyfnod i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn amrediad o brofiadau dysgu eang a chyfoethog. Mae'r themâu trawsgwricwlaidd yn dechrau ymestyn medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agwedd disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae llawer o'r athrawon yn sicrhau rhediad da i'w gwersi. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gosod tasgau heriol sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio'u gwybodaeth flaenorol a'u medrau meddwl i gasglu barn gwahanol bobl a oedd yn rhan o drychineb Aberfan, er enghraifft. Fodd bynnag, mae disgwyliadau'r athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn anghyson ar draws yr ysgol.

Mae adborth llafar ac ysgrifenedig yr athrawon yn canolbwyntio'n dda ar sut y gall disgyblion wella eu gwaith. Drwy gyfnodau byr o fyfyrio cyson mewn gwersi, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda a deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith ymhellach. Maent yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad da i wella agweddau penodol ar eu gwaith.

Mae'r ysgol gyfan wedi dechrau cynllunio'n fwriadus yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyd-gynllunio'n llwyddiannus â'r athrawon yn ystod diwrnodau sbardun gan wneud dewisiadau penodol ynghylch

beth yr hoffent ei ddysgu a sut maen nhw am wneud hynny. Mae athrawon yn rhoi nifer o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn mynegi barn yn hyderus mewn arddull araith ar gadw anifeiliaid mewn sŵ. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddefnyddio agweddau o'u medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol, yn benodol wrth ddefnyddio data i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol. Trwy gynllunio i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith, caiff ddisgyblion gyfleoedd cadarn i'w galluogi i ddefnyddio'u medrau TGCh mewn cyd-destunau amrywiol.

Mae athrawon yn y blynyddoedd cynnar yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus pwrpasol i'r disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd diddorol iddynt ymchwilio, chwarae rôl, coginio yn y gegin fwd ac ymarfer eu medrau corfforol. Fodd bynnag, yn nosbarthiadau hŷn y cyfnod hwn, mae llawer o'r gweithgareddau'n cael eu harwain gormod gan oedolion, sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion fanteisio ar yr amgylchedd dysgu allanol er mwyn cyfoethogi a herio'u dysgu yn anghyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfle i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol a chreadigol nac i gyfoethogi eu medrau llafar yn naturiol.

Mae'r cyfleoedd rheolaidd a ddarperir gan yr holl staff i hyrwyddo Cymreictod yn rhan naturiol o holl waith yr ysgol. Mae staff yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus drwy weithgareddau'r cwricwlwm a thrwy ddarparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion astudio'u hamgylchedd leol a thrwy roi sylw i waith artistiaid a cherddorion sy'n Gymry. Mae'r ddarpariaeth i annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn y ffordd mae pob aelod staff yn cywiro iaith lafar Gymraeg y disgyblion o fewn gwersi ac ar adegau eraill.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol lle rhoddir pwyslais cryf ar sicrhau gofal a chymorth i bob unigolyn. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn ymfalchïo yn eu hysgol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hybu lles emosiynol a meddyliol disgyblion yn effeithiol iawn ac yn agwedd gadarn iawn o'i gwaith. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r holl ddisgyblion ddeall eu hemosiynau yn ogystal â'r materion amrywiol hynny sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl. Fe amlygir hyn yn y ffordd naturiol y mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd a'r staff. Fe'u hanogir i reoli eu hymddygiad yn dda, ac i fod yn barod i fentro ac ymgysylltu'n llwyddiannus â'u gwaith. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu hunanhyder cadarn sy'n eu galluogi i rwydweithio'n hyderus, er enghraifft trwy ymweld ag ysgolion cyfagos uniaith Saesneg i hybu Cymreictod.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a thrafodir themâu pwysig a phriodol fel gwrthfwlio mewn wythnosau thema. Mae darpariaeth eang y prynhawniau lles yn rhoi cyfleoedd effeithiol i'r disgyblion ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus wrth iddynt drafod materion cyfoes fel bywydau ffoaduriaid a thrychinebau cyfredol y byd ehangach.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn atgyfnerthu hyn trwy annog y disgyblion i gadw'u corff yn heini a bwyta ac yfed pethau iachus. Mae'r cyfleoedd niferus a ddarperir yn cynnwys ystod eang o ymwelwyr allanol sy'n dod i siarad â'r disgyblion am bwysigrwydd cadw'n ffit a mynychu sesiynau ymarfer corff a chlybiau chwaraeon yn cyfrannu'n dda at eu lles a'u hymwybyddiaeth o fyw'n iach.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn helpu staff i adnabod yn gyflym unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth ac i ddarparu rhaglenni defnyddiol ar eu cyfer, sy'n bodloni eu hanghenion. Mae'r cynorthwywyr yn cefnogi'r disgyblion hyn yn ystyrlon er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn a chyson. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryno a chlir. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni gan eu haddasu'n bwrpasol yn ôl yr angen.

Mae perthynas hynod o gefnogol yn bodoli rhwng y rhieni, y gymuned a'r ysgol. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol, ac fe drefnir sesiynau cwnsela a chefnogaeth iddynt gan asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Mae'r ysgol yn cynnig nifer o weithdai effeithiol i godi ymwybyddiaeth y rhieni o weithdrefnau newydd y byd addysg mewn ffurf sesiynau gwerthoedd ymarferol ac ar ddiwrnodau agored yr ysgol. Mae ymglymiad y rhieni yn addysg eu plant yn werthfawr ac yn eu gwneud yn fwy ymwybodol o sut y gallant helpu eu plant gartref.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau synhwyrol er lles eu cymuned drwy gyfrwng grwpiau llais y plentyn, fel y cyngor ysgol a'r eco bwyllgor. Enghraifft dda iawn o hyn yw effaith ymweliad y pwyllgor â'r gamlas leol i gynnal arolwg sbwriel. Wedi'r ymweliad, anfonodd y disgyblion lythyr at y cyngor lleol i rannu eu pryderon am y diffyg biniau sbwriel yno. O ganlyniad, mae'r cyngor lleol wedi ymateb yn gadarnhaol i'w llythyr ac wedi gosod mwy o finiau sbwriel ar hyd y gamlas.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth pwrpasol o gyfleoedd i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a thu hwnt. Mae enghreifftiau da yn cynnwys perfformio yng Ngŵyl Gorawl Cwmbrân, a chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hyder a datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio ystod fuddiol o weithgareddau bwriadus sy'n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Mae ymweliadau addysgol i leoedd diddorol fel y Pwll Mawr ym Mlaenafon a'r cwrs preswyl i wersyll yr Urdd yn Llangrannog yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes lleol a thu hwnt yn gadarnhaol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gweledigaeth y pennaeth wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu'r ysgol yn gymuned addysgol effeithiol sy'n sicrhau bod lles disgyblion yn gadarn a'u bod yn cyrraedd ac yn cynnal safonau da. Mae holl staff yr ysgol yn gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

Mae'r pennaeth yn hyderus iawn yn ei harweinyddiaeth. Mae'n dosbarthu cyfrifoldebau'n synhwyrol ymhlith y staff ac mae ganddi strwythurau clir i'w cefnogi. Mae gan aelodau'r uwch dîm rheoli rolau pendant. Maent yn arwain timoedd dysgu'n bwrpasol ac yn hyrwyddo gwaith tîm yn dda. Mae'r staff yn cydweithio'n agos gyda'r pennaeth i sicrhau bod cymuned yr ysgol yn un drefnus sy'n cael ei rheoli'n effeithiol. Mae pob cyfarfod rheoli, tîm a staff wedi ei strwythuro'n bwrpasol ac yn darparu llinellau cyfathrebu buddiol rhwng arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr.

Mae gan yr ysgol rhaglen fonitro a hunanwerthuso sefydlog sy'n canolbwyntio'n dda ar wirio agweddau o'i gwaith, gan gynnwys addysgu, craffu ar lyfrau, cynllunio, llais y disgybl a safonau cyrhaeddiad disgyblion. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae ymrwymiad arweinwyr i sicrhau gwelliant ar draws yr ysgol yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau bod safonau mewn addysgu a dysgu yn gadarn. Er enghraifft, mae'r athrawon wedi addasu'r ddarpariaeth er mwyn sefydlu'r cwricwlwm newydd i Gymru trwy newid eu themâu i ennyn diddordeb bron pob disgybl, tanio'u dychymyg a chryfhau eu llais mewn perthynas â'u dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hunanwerthuso wedi amlygu agweddau allweddol o'r ddarpariaeth sy'n llesteirio datblygiad yr ysgol mewn ychydig agweddau yn ddigon clir, fel addysgeg ar frig y cyfnod sylfaen a chysondeb wrth gywiro iaith lafar Gymraeg y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu lwyddiannus lle mae'r pennaeth yn ymgymryd â phrosiectau sydd o fudd i'r disgyblion ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r safonau. Er enghraifft, mae wedi cynyddu'r ffocws ar wella darpariaeth lles y disgyblion a'r staff yn ddiweddar ac wedi llwyddo i gyflogi therapydd drama a cherdd i ddatblygu medrau cymdeithasol a hyder y disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymrwymiad a'u parodrwydd i ddysgu.

Mae'r arweinwyr wedi creu diwylliant cadarn i reoli perfformiad staff a chefnogi eu hanghenion dysgu proffesiynol. Mae'r broses hon yn cefnogi pob aelod o staff ac yn arwain at lefel uchel o ddysgu proffesiynol. Mae'r athrawon wedi mynychu cyrsiau sy'n eu galluogi i ddatblygu eu harbenigedd mewn meysydd penodol fel lles meddwl, a medrau sillafu'r disgyblion. Yn ogystal, mae'r cynorthwywyr wedi derbyn hyfforddiant i loywi eu hiaith a gwella eu medrau Cymraeg. Mae staff hefyd yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i rannu arfer dda o fewn yr ysgol a thu hwnt. Er enghraifft, maent yn cydlynu gwaith y clwstwr Cymraeg o ysgolion cyfagos. Mae'r dirprwy bennaeth hefyd yn rhannu arferion campus lles yr ysgol drwy arwain cyrsiau i athrawon o fewn yr awdurdod lleol ac mewn cynadleddau cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r gefnogaeth i'r disgyblion yn effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda iawn. Maent yn derbyn gwybodaeth fanwl a phwrpasol gan y pennaeth sy'n eu galluogi i gyflawni eu gwaith yn effeithiol. Mae aelodau'r corff yn ymweld â'r ysgol yn gyson ac yn ymgymryd â theithiau dysgu, siarad â disgyblion a chraffu ar eu llyfrau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella ac maent yn herio arweinwyr yn fedrus er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, ac yn adolygu gwariant yn fanwl. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau cymorth ar gyfer yr holl ddisgyblion perthnasol, er enghraifft i wella eu medrau darllen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2019